



Chwaraeon Rhct Astudiaeth Achos

Ysgol Gynradd Penrhiwceiber

Cyflwynodd Ysgol Gynradd Penrhiwceiber gais i'n cronfa ysgolion gyda'r nod o sefydlu clwb rygbi newydd ar ôl yr ysgol. Fe wnaethon nhw dderbyn £250 o gyllid, roedd hyn wedi galluogi'r ysgol i brynu offer hyfforddi megis peli a bagiau taclo. Fe wnaeth yr offer newydd sbon wneud i'r plant deimlo'n arbennig ac yn falch i fod yn rhan o'r clwb. Roedd hefyd o'r pwys mwyaf i'w helpu nhw i ddatblygu'r dechneg taclo gywir.

Fe wnaeth 17 o blant fynychu'r clwb rygbi ar ôl ysgol ac roedden nhw wrth eu boddau â'r sesiynau. O ganlyniad, roedd modd i'r ysgol sefydlu tîm a chynnal sesiynau hyfforddi a gemau ar y cyd ag Ysgol Gymunedol Abercynon. Fe ddaeth ystod o ddisgyblion i'r sesiynau. Roedd rhai ohonyn nhw wedi chwarae rygbi y tu allan i'r ysgol, ond doedd llawer ohonyn nhw erioed wedi chwarae o'r blaen. Bu'r offer yn gymorth i feithrin brwdfrydedd dros rygbi ac fe helpodd i gyflymu datblygiad sgiliau, roedd hyn wedi arwain at lawer o'r disgyblion oedd heb chwarae rygbi o'r blaen yn ymuno â thimau rygbi lleol. Mae un ferch yn arbennig wedi datblygu'n wych ac mae hi bellach yn chwarae i'r Timbers.



Doeddwn i ddim yn siŵr am rygbi i ddechrau, ond rydw i eisiau ei chwarae drwy'r adeg nawr!

